

Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Mai 2021):

Mynd am Dro

Nod y wers:

- Cyflwyno testunau sy'n trafod mynd am dro;
- Trafod mynd am dro;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.

Dros gyfnod y pandemig, mae llawer ohonon ni wedi bod yn mynd am dro yn fwy aml nag arfer. Mae'n rhywbeth roedd **hawl** gynnwys ni i'w wneud trwy holl gyfnod y **cyfyngiadau symud**, felly buon ni'n cerdded llwybrau, palmentydd a lonydd **cyfarwydd**, yn ogystal â darganfod rhai newydd, yn agos at adre. Wedyn, wrth i'r cyfyngiadau gael eu **llacio** rywfaint, mae wedi bod yn bosib i ni deithio ymhellach o gartref i gael mynd am dro. Gyda chyfyngiadau ar ddigwyddiadau ac ar deithio tramor yn parhau, mae llawer o'r llyfudd mwyaf poblogaidd i fynd am dro wedi bod yn brysur ofnadwy ar adegau.

Bydd yr uned hon yn cyflwyno darnau darllen a gwyllo a gwrando am brofiadau pobl o fynd am dro (gan gynnwys clipiau o raglen *Am Dro S4C*), ac yn rhoi cyfle i'r dysgwyr drafod eu profiadau eu hunain o fynd am dro dros gyfnod y pandemig, ac ar adegau eraill.

Os oes dysgwyr sydd ag anawsterau symudedd yn y dosbarth, pwysleiswch mai 'mynd am dro' fydd yn cael ei drafod, ac er bod llawer o gyfeirio at gerdded yn y testunau, bydd y trafodaethau'n gallu cynnwys moddau eraill o fynd am dro. Yn wir, gellir trafod llyfudd sy'n dda i fynd am dro ynddynt os nad ydych yn cerdded a thrafod rhwystrau os ydy'r dysgwyr yn gyfforddus yn gwneud hynny yn y dosbarth.

Bydd angen cyflwyno'r deunydd dros o leiaf 2 sesiwn gan fod gofyn i'r dysgwyr wyllo clipiau fideo o raglen *Am Dro* rhwng dwy sesiwn er mwyn paratoi at waith trafod yn yr ail sesiwn.

1. Ewch dros y cyflwyniad i'r uned cyn mynd ymlaen at yr ymarferion.

Darllen a siarad - Lle i enaid gael llonydd: Nia Lloyd Jones

2. Cyn mynd ati i ddarllen y darn, cyflwynwch yr ymadroddion '**ganwaith o'r blaen**', '**mynd ati**', '**mae modd...**' a '**boed law neu hindda**', yna rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau ymarferion 1-4.

Dyma'r atebion disgwylidig ar gyfer ymarferion 2 a 3:

Es i ati i balu'r ardd lysiau.

Aeth Siân ati i wneud ei gwaith cartref.

Aethon nhw ati i baratoi'r ystafell ar gyfer y parti.

Aethon ni ati i ddysgu llinellau'r ddrama.

a. Gallwch chi brynu popeth ar y we y dyddiau yma.

Mae modd prynu popeth ar y we y dyddiau yma.

b. Mae'n bosib croesi'r afon yma os nad ydy'r llanw i mewn.

Mae modd croesi'r afon yma os nad ydy'r llanw i mewn.

c. Gallwch chi gerdded i'r copa os dych chi'n weddol heini.

Mae modd cerdded/Mae modd i chi gerdded i'r copa os dych chi'n weddol heini

3. Wedi i chi fynd dros yr ymarferion uchod, gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr erthygl – gallech ofyn i barau ddarllen trwyddo bob yn ail baragraff. Wedi i bawb gael cyfle i ddarllen y darn, gofynnwch iddynt baru'r bobl a'r llefydd yn ymarfer 5. â'r disgrifiadau sy'n esbonio eu harwyddocâd. Dyma'r atebion disgwylidig:

Porthaethwy	Y dre lle gaeth Nia ei magu.
Llanfairpwll	Lle mae Nia'n byw rŵan/nawr.
BBC Radio Cymru	Lle mae Nia'n gweithio.
Coed Cynol	Y lle ym Mhorthaethwy ble mae Nia'n hoffi mynd am dro.
Tysilio	Sant sydd wedi rhoi ei enw i eglwys ac ynys yn Afon Menai.
Cynan	Bardd sydd wedi'i gladdu ym mynwent yr eglwys ar yr ynys.
Gwlad Belg	Adeiladodd pobl oedd wedi ffoi o'r wlad hon adeg y Rhyfel Byd Cyntaf lwybr ar lannau'r Fenai.
Carreg yr Halen	Wrth gyrraedd y fan hon, mae Nia'n gweld Pont Menai.

4. Cyfeiriwch wedyn at y defnydd o 'aethant ati' a chyflwynwch ffurfiau llenyddol/ffurfiol amser gorffennol 'mynd' cyn gofyn i'r dysgwyr lenwi'r tabl. Heblaw am y rhai sydd wedi bod yn dilyn cyrsiau Uwch 3, mae'n bosib y bydd y ffurfiau llenyddol yn anghyfarwydd iawn i'r dysgwyr. Os felly, byddai'n well arwain y dosbarth trwy'r ymarfer hwn yn hytrach na'u rhoi mewn parau i gwblhau'r tabl. Dyma'r atebion disgwylidig:

Cymraeg llafar	Cymraeg ffurfiol
Es i	Euthum
Est ti	Aethost
Aeth e/hi	Aeth
Aethon ni	Aethom
Aethoch chi	Aethoch
Aethon nhw	Aethant

5. Trafodwch yr ymadrodd ‘**i lawr yr allt**’ gyda’r dosbarth hefyd. Ymhlith yr amrywiadau tafodieithol posib, mae:

i lawr y rhiw

i lawr y tyle

lawr y gwaered

6. Nesaf, rhannwch y dosbarth yn barau neu grwpiau bach a gofyn iddynt fynd ati i ddisgrifio taith Nia gan gyfeirio at y ciwiau a roddir yn y sgwariau glas (ond heb edrych yn ôl ar yr erthygl!). Wedi dod â phawb yn ôl at ei gilydd, gallwch fynd trwy’r daith gyda phawb yn ei dro yn cyfrannu cam.
7. Ewch dros y cyflwyniad i englyn J. Glyn Davies ac i’r gynghanedd gyda’r dosbarth. Os ydych yn meddwl ei fod o ddiddordeb ac o fewn cyrraedd, gallwch ddangos fideo Gwynfor Dafydd yn y dosbarth (mae’r fideo wedi’i chyflwyno fel rhan o uned gyfoes yn trafod Barddoniaeth yn y gorffennol). Fel arall, gwahoddwch y rhai sydd â diddordeb i wyllo’r fideo yn eu hamser eu hunain. Gyda dosbarth sydd â gwir diddordeb (ac sy’n abl iawn!), gallwch drafod yr englyn a’r gynghanedd ymhellach, e.e. gofyn pa fath o gynghanedd sydd yn y llinell ‘lle i enaid gael llonydd’ (cynghanedd draws), neu gyflwyno englyn arall sy’n trafod rhywle neu rywun sydd o ddiddordeb arbennig i’r dosbarth.

8. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy’n trafod ‘lle i enaid gael llonydd’ i’r dysgwyr. Gallech chi gynnig atebion i’r cwestiynau cyn rhannu’r dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â’r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau’r grwpiau.

Gwyllo a Gwrando a siarad – Am Dro, S4C

9. Soniwch am raglen *Am Dro* S4C a gofynnwch i barau edrych ar y cwmwl geiriau a dewis ansoddeiriau addas i lenwi'r bylchau yn y brawddegau. Ewch dros yr atebion a gafwyd.
10. Rhannwch y dosbarth yn o leiaf 4 grŵp os oes modd, a rhoi copi o un o'r disgrifiadau (Atodiad 1-4) o deithiau o raglen *Am Dro* i bob grŵp cyn gofyn iddynt ddarllen y disgrifiadau a thrafod y cwestiynau yn ymarfer 2. Os yw'r dosbarth yn fach iawn (h.y. llai nag 8), gallwch roi dau neu dri unigolyn sydd â dwy daith wahanol gyda'i gilydd i drafod, ac os yw'r dosbarth yn fawr iawn, bydd angen i fwy nag un grŵp gael manylion yr un daith. Byddai'n syniad anfon y disgrifiadau at y dysgwyr ymlaen llaw.

Wedi i bawb ddod yn ôl at ei gilydd a chyflwyno'r hyn maen nhw'n ei wybod am eu taith (ar sail y disgrifiadau ysgrifenedig, eglurwch bod angen i bawb wyllo'r clip o'r daith sydd wedi'i dyrannu iddyn nhw cyn y dosbarth nesaf. Mae dolenni i'r clipiau ar y tudalennau sy'n cyflwyno'r teithiau. Ewch dros y pwyntiau a nodir yn ymarfer 3 a **siansio pawb ei bod yn bwysig iddynt edrych ar y clip fideo a gwneud nodiadau ar gyfer y dosbarth nesaf.**

11. Yn y dosbarth canlynol, rhowch y grwpiau yn ôl at ei gilydd fel yr oeddent a gofyn iddynt gymharu nodiadau a thrafod y daith y buon nhw yn ei gwyllo. Gofynnwch iddynt drafod hefyd a chytuno fel grŵp ar farc i'w roi ar gyfer y daith (allan o 10).
12. Wedyn, aildrefnwch y grwpiau, gan sicrhau bod o leiaf un dysgwr sydd wedi gweld pob taith ym mhob grŵp. Gofynnwch iddynt ddisgrifio'r teithiau i'w gilydd ac esbonio'r marc a roddwyd ar gyfer y daith y buon nhw'n ei gwyllo.
13. Mae modd gosod ymarfer 5 fel gwaith cartref ysgrifenedig, neu fel gwaith trafod i grwpiau yn y dosbarth (efallai y gwelwch ei fod yn rhy debyg i'r dasg 'Siaradwch' sydd yn y blwch i wneud y ddau beth ar lafar yn yr un sesiwn).

14. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod arferion mynd am dro y dysgwyr. Gallech chi drafod eich profiadau chi'ch hunan gyda'r dosbarth cyfan cyn eu rhannu'n grwpiau bach i drafod gyda'i gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.